

gan y gwelir ar ben y labeli ddyddiad 'rhif darlennydd', ac wrth ei ochr rhoddir dyddiad dychwelyd y llyfr. Yn ogystal, ceir stamp hirgrwn 'Llyfrgell Caerhun'. Nid oedd rhestr argraffedig o reolau ym mhob llyfr, yn hytrach fe'i ceir wedi ei deipio ar bapur ar wahân. Er na welwyd catalog o'r llyfrau mae'n amlwg yr argraffwyd un gan y nodir yn y rheolau, 'Gellir cael rhestr o lyfrau'r llyfrgell am gaeiniog gan y llyfrgellydd'.

O edrych ar y casgliad gwelir mai llyfrau crefyddol ydynt gyda gogwydd Fethodistaidd. Yn eu mysg ceir *Esboniad ar y Bibl Sanctaidd*, Owen Jones, Wyddgrug (1842), *Hanesiaeth a Gwyddoniaeth y Beibl yn wir a chywir* gan y Parchedig J. Ogwen Jones (1875), *Dictionary of the Bible*, William Smith, ac *Esboniad Henry a Scott*. Ceir hefyd ychydig o lawlyfrau Undeb yr Ysgolion Sul, ac un gyfrol o'r *Gwyddoniadur*. Amlygir yn ogystal ddiddordeb lleol yn y casgliad, megis *Hanes Methodistiaeth Arfon*, a *Ty fy Nhad wedi ei baratoi i'r Prymedigion yn Esgyniad y Cyfryngwr*, gan y Parchedig David Jones, Treborth.

Mae'n amlwg y perthyn y llyfrgell hon i'r ugeinfed ganrif, gan mai llond dwrn o lyfrau sy'n perthyn i'r cyfnod cyn 1900. Er hyn nid sioe o lyfrgell oedd hon. Yn ei hanterth fe'i cymerwyd o ddifrif er nad oes ddefnydd ohoni ers blynyddoedd bellach.

Horeb, Brynsiencyn, Sir Fôn

Un o nodweddion Môn yw ei chapeli enwog ac ni siomir neb wrth ymweld â chapel Horeb, Brynsiencyn. Adeiladwyd y capel presennol yn 1883 ar gost o dair mil o bunnoedd, swm echrydus o uchel pryd hynny. Yma y dechreuodd yr enwog Dr John Williams ei weinidogaeth yn 1878. Ymhen dwy flynedd ar bymtheg symudodd i Princes Road, Lerpwl, cyn dychwelyd i Fôn yn 1911, ac ymgartrefu yn Llwyn Idris.

Mae'n amlwg mai calon llyfrgell Horeb yw llyfrgell y Dr Williams, a cheir label yn y mwyafrif o'r llyfrau yn datgan eu bod yn gyflwynedig i eglwys Horeb gan Mrs Williams o llyfrgell ei diweddar briod. Cedwir y casgliad mewn cwpwrdd gwyr yn y festri, ac amcangyfrifwyd fod tua 300 o lyfrau yn y casgliad ac oddeutu 53% ohonynt yn Gymraeg. Stampiwyd y llyfrau â stamp arbennig Llyfrgell Methodistiaid Calfinaidd Horeb, Brynsiencyn. O fewn y stamp mae lle i nodi rhif y llyfr ac fe gyfatebai hyn â'r rhif ar y meingefn. Nid oes rheolau o fewn y llyfrau. Un o nodweddion y llyfrgell hon yw'r modd y bu i gatalog o'r llyfrau gael ei argraffu mewn llyfryn bychan.

O ran llyfrau at ddefnydd yr Ysgol Sul ceir *Unoliaeth y Beibl*

(1866), *Cydymaith yr Ysgrhythur*, Jones ar yr Hebreaid, a D. Charles Davies ar y Rhufeiniaid a'r Effesiaid. Ambell i gyfrol yn unig o *Y Gwyddoniadur* sydd yno. Gwelir teyrngarwch cyfundebol amlwg yn y casgliad: tair cyfrol D. E. Jenkins, *The Rev. Thomas Charles, of Bala; Methodistiaeth Dwyrain Meirionydd; Methodistiaeth Sir Fflint* (1914). Ceir cyfieithiadau o lyfrau Piwritanaidd megis gweithiau gan Gurnal, Bunyan, a Charnock. Cafwyd rhai llyfrau annisgwyl yma megis *Y Ffydd Ddi-ffuant*, Charles Edwards, argraffiad Dolgellau 1811; a *Bibliotheca Celtica* 1912. Ceir amrywiaeth odidog o gylchgronau: *Y Drysorfa*, *Y Traethodydd*, *Y Gwyllydydd*, *Y Methodist*, a'r *Esboniwr*. Nid syndod yw'r deg cyfrol o *Y Lusern*, gan i Dr Williams ymuno â'r bwrdd golygyddol yn 1889.

Lleiafrif pitw yw'r llyfrau seciwlar sydd yn y llyfrgell hon: mae'n amlwg y bwriadwyd hi at ddibenion crefyddol yn hytrach na darllen ysgafn.

Heol China, Llanidloes, Sir Drefaldwyn

Tref farchnad yw Llanidloes mewn ardal amaethyddol yn

nyfnder Sir Drefaldwyn. Bu i'r cynulliad cyntaf o Fethodistiaid ymgaslu oddeutu'r flwyddyn 1778 yn nhai John Lewis yr oriadurwr, Risiart Humphreys y gof, ac Evan Jenkins y crydd. Gyda chynnydd yn y gynulleidfa bu'n rhaid cael adeilad addas i addoli, ac agorwyd y capel cyntaf yn 1779. Agorwyd y capel presennol, Heol China, yn 1873.

Ni oroesodd cofnod o ddyddiad sefydlu'r llyfrgell, ond mae'n amlwg mai ym Methel, y trydydd capel, y'i sefydlwyd a hynny cyn 1873. Mae dau ddam o dystiolaeth sy'n cadarnhau hyn. Yn gyntaf, o fewn y llyfrau ceir 'Telerau Llyfrgell Bethel' yn hytrach na 'Heol China'; ac yn ail, y mae'r rhan helaethaf o'r llenyddiaeth yn dyddio o ddechrau a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cynhwysa'r llyfrgell oddeutu 500 o lyfrau gyda dim ond 37% ohonynt yn Gymraeg. Bu ymgais i roddi rhif derbyn arnynt, ac mae'r rhifau o fewn y siaced lwch yn cyferbynnu â'r rhif ar y meingefn. Er hynny, gwelir fod amryw o lyfrau'r casgliad heb eu rhifo, sy'n awgrymu i'r llyfrgell gael ei hesgeuloso ers blynyddoedd.

Ceir yr argraff bendant fod y llyfrgell hon yn gwasanaethu'r gymuned yn ogystal â'r capel a'r

Ysgol Sul. Un rheswm dros greu hyn yw'r amrywiaeth cang o lyfrau yr enwadau eraill sydd yn y llyfrgell. Ceir, er enghraifft, *Wesleath Gymraeg*, *Yr Eurgrawn*, *Y Dysgedydd*, ac *Yr Haul*. Yn ogystal gwelwyd cyfrol 1852 o'r *Medical Times and Gazette* a'r *Journal of Medical Science, Literature, Criticism and News*. Mae yma hefyd lyfrau Prydeinig eu naws sy'n dangos nad oedd fawr o ymlyniad wrth genedligrwydd Cymreig yn y cyfnod, megis llyfrau yn dwyn y teitl *Prydain Fawr, ei Chynnydd a'i Mawredd a British Songs for British Boys* (1903).

Yng nghanol y llyfrau gwelir ychydig sy'n dangos mai llyfrgell Fethodistaidd Gymraeg yw hi. Yn eu mysg mae *Y Gwyddoniadur Cymreig*; argraffiad cyntaf o *Eiriadur Ysgrhythur*, Charles; *Cyfiawnhad Pechadur*, John Elias; ac argraffiad 1806 o *Hyfforddwr*, Charles. Gwelir nifer helaeth o lawlyfrau Undeb Ysgolion Sul y Methodistiaid Calfinaidd; pum copi (newydd) o *Methodistiaeth Trefaldwyn Isaf* (1914); a *Holl Weithiau Prydyddawl a Rhyddiaethol y Diweddar Barchedig William Williams, Pantycelyn*. Rhoddir lle anrhydeddus i esboniadau Calfin, rhodd i'r llyfrgell gan blant cyn-flaenor y capel, Edmund Cleaton. Ymhllith y cylchgronau mae *Y Drysorfa*, *Trysorfa y Plant*, *Goleuad Cymru*, ac fel y gellid disgwyl. *Yr Athraw*, a olygwyd gan Humphrey Gwalchmai, un o fugeiliaid cynharaf y Cyfundeol. Mae'r llyfrgell yn cynnwys llyfrau hanesyddol a gwerthfawr. Ceir teyrngarwch cyfundebol yn ogystal â llawys o gyfrolau ar gyfer carfan ehangach o ddarllenwyr.

Yr argraff amlwg a gafwyd wrth ymweld â'r llyfrgelloedd hyn oedd iddynt gael eu hesgeuloso ers blynyddoedd. Gellir cynnig amryw o resymau. Y cyntaf, yn ddi-os yw'r cefnu a ddigwyddodd ar ddiwinyddiaeth Ddiwygiedig Galfinaidd pan ddechreuodd Uwch-feimadaeth a Moderniaeth dreiddio i'r capeli. Yn ail, fel mae'r gymdeithas o amgylch y capeli yn seciwlaidd, gwelir lleihad cyffredinol mewn diwylliant diwinyddol. Mae'r esgeulustod o'r llyfrgelloedd yn ddrach o'r cefnu a ddigwyddodd ar yr etifeddiaeth Gristnogol, nid yn unig yng Nghymru, ond trwy orllewin Ewrop.

Sail y sylwadau hyn yw ychydig o lyfrgelloedd. Fy mwriad yw gwneud astudiaeth lawn o lyfrgelloedd capeli'r Methodistiaid Calfinaidd yng ngogledd Cymru. Byddai'n dda gennyf glywed pa gapeli eraill sydd â llyfrgell. Anfonwch fanylion i mi: Rhieil Elidir, Erw Wen, 2 Tai Idris, Ffordd y Gader, Dolgellau, Gwynedd.

RHIF.	ENW Y LLYFR.	AWDWR.
12	Cofiant Edward Morgan, Dyffryn.	G. Ellis, G.
97	William Lewis, Khasia	... "
179	Cofiant Thos. E. Ellis	... "
80	Cyfrol Goffa Gor Meirionydd	... Ellis, H.
1	Hunangofiant Dafydd Dafis	... Evans, B. G.
170	Rhagluniaeth	P. ... Evans, Evan
59	Adgofion am D. Jones, Treborth	... Evans, D. Chas.
121	Bywyd ac Athrawiaeth John Calfin	... Evans, John
37	Yr Ail Fyr-Gofiant—19 o Weinidogion Sir Aberteifi, 1894—1907	... Evans, J.
69	Hanes Iesu Grist i'r Bobl	... Evans, O.
145	Damhegion Crist	... Evans, Dr. Owen
144	Gwyrthiau Crist	... "
153	Merched yr Ysgrhythurau	... "
146	Oriau gyda'r Iesu.	Cyf. I. ... "
147	Eto	Cyf. II. ... "
143	Yr Aberthau	... "
161	Yr Iesu a'i Gyfeillion	... "
148	Geiriau Olaf Iesu Grist	... "
34	Bywgraffiadau y Beibl	... "
152	Ser y Dwyrain	... "
154	Damhegion Crist	E. ... "
186	Ysten Sioned	... Evans, Silvan
223	Y Morthwyl	... Foulkes, I. (Cyhoeddwr)
225	Gweision a Morwynion yr Ysgol Sul	... Foulkes, John
18	Mynegai i'r Gwyddoniadur	... Gee a'i Fab (Cyhoeddwr)
19-28	Y Gwyddoniadur (10 Cyfrol)	... "
134	Hanes Bywyd W. E. Gladstone	... "
216	Pennau Teuluoedd a'r Ysgol Sul	... "
47	Hanes Bywyd H. M. Stanley	... "
168	Y Geiniogwerth, 1847—1848.	P. ... "
169	Eto 1849—1850.	E. ... "
42	Llyfr y Cyfarfod Plant	... George, W.
140	Anturiaethau Cymro yn Africa	... Griffiths, W.
251	Cibroth Hataafah	... Goleufrin
49	Gweithiau Llenyddol	... "
227	Adroddiadur Barddonol	E. ... Gwalchmai
8	Llyfryddiaeth y Cymry	G. ... Gwilym Lley
125	Banau Duwinyddol	... Hodge, A. A.
226	Ystoriwr y Plant	... Hughes, H. Brython
139	Tlysau Ynys Prydain	... "
199	Tair Cwpan Aur	... "
14	Methodistiaeth Cymru	Cyf. I. ... Hughes, J.
15	Eto	Cyf. II. ... "
16	Eto	Cyf. III. ... "
170	Gramadeg Athronyddol	P. ... Hughes, H. (Tegai)
260	Gwanwyn Bywyd a'i Ddeffroad	... Hughes, J.
211	Ysgol Jacob	... "
111	Marwolaeth Y Saint	... "
213	Yr Athraw o Ddifrif	... Hughes, J. Moelwyn

Dyma rai o'r llyfrau oedd yn Llyfrgell Capel Methodistiaid Calfinaidd Derwenlas, ger Machynlleth, yn 1912. Yr oedd yna 280 o gyfrolau yn y casgliad, 10 ohonynt yn rhai Saesneg.